



POLISI CADW PLANT RHAG CRWYDRO / PLENTYN AR GOLL

Cylch Meithrin Y Felinheli

Bydd **Cylch Meithrin Y Felinheli** yn sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn ymwybodol o'r polisi hwn drwy y wybodaeth sydd i'w gael yn y llyfryn rhieni, copi o'r polisi ar gael i'w lawrlwytho oddi ar ein gwefan neu drwy ei ddarllen yn y ffeil bolisiau sydd yn cael ei gadw yn y Caban.

Nod

Nod **Cylch Meithrin Y Felinheli** yw sicrhau bod y plant yn aros o fewn adeilad ac amgylchoedd y lleoliad ac nad yw'n bosibl iddynt grwydro o'r safle. Dylai'r cylch sicrhau fod gweithdrefnau cadarn yn eu lle a bod y staff i gyd yn gwybod sut i ymateb pe bai plentyn yn mynd ar goll o'r safle.

Am fanylion o'r camau i ddilyn os bydd plentyn yn mynd ar goll tu all i'r safle, cyfeiriwch at y **Polisi Cludo a Throsglwyddo**.

Egwyddorion

Mae cadw plant yn saff a diogel ym mhob sefyllfa yn rhan bwysig o sicrhau fod y **Cylch Meithrin** yn parhau hawliau plant sydd yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant. Yn benodol:

- | | |
|------------|--|
| Erthygl 3 | Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio at yr hyn sydd orau i bob plentyn. |
| Erthygl 19 | Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn cael y gofal priodol, a'u cadw rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod gan eu rhieni neu unrhyw un arall sy'n edrych ar eu hôl. |
| Erthygl 23 | Dylai plant sydd ag anabledd o unrhyw fath gael gofal arbennig a chefnogaeth fel y gallent fyw bywyd llawn ac annibynnol. |
| Erthygl 31 | Mae gan blant yr hawl i ymlacio a chwarae ac ymuno mewn ystod eang o weithgareddau ¹ |

¹ Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant

<http://www.hawliauplant.cymru/index.php/component/content/article?id=2&Itemid=108>

Fersiwn 1:2

Mehefin 2018 / Adolygiad Mehefin 2019

Ceri Rhiannon a Catrin Elis – Personau Cofrestredig : Rhian Jones a Sera Jones – Arweinyddion y Cylch

Elusen Gofrestredig Rhif 1094577



Cod Ymarfer

Bydd y Cylch Meithrin yn:

- cynnal asesiad risg cynhwysfawr
- Cwblhau'r gofrestr fel bydd y plant yn cyrraedd a gadael y Caban
- sicrhau nad yw plant yn gallu agor na chau'r drysau eu hunain - dylid gosod dolenni neu foltau allan o gyrraedd y plant. Dylid sicrhau bod unrhyw ddrws sy'n arwain allan o'r safle ar gau ar bob adeg
- sicrhau bod y ffenestri yn ddiogel ac na all y plant eu hagor. Dylid gosod dolen diogelwch ar unrhyw ffenestr sy'n agor
- sicrhau bod unrhyw fan chwarae tu allan yn ddiogel ac nad yw'n bosibl i blentyn agor unrhyw ddrws/giât
- gwneud archwiliad o'r ystafell/adeilad cyn dechrau pob sesiwn i wneud yn siŵr fod y lle'n ddiogel, e.e. sicrhau bod allanfeydd argyfwng wedi'u cau'n briodol, ac nad oes ffenestri isel ar agor.
- sicrhau fod yr Arweinydd (neu berson sydd yn cymryd y swyddogaeth yma pe bai'r Arweinydd yn absennol) wedi sefydlu trefn ble mae staff dynodedig yn cymryd cyfrifoldeb i gofrestru plant wrth iddynt gyrraedd.

Camau i'w cymryd os darganfyddir fod plentyn ar goll o safle'r Cylch:

- Edrych ar y gofrestr i sicrhau y dylai'r plentyn barhau i fod yn bresennol yn y cylch ac nad oes unrhyw un eisoes wedi ei gasglu.
- Holi'r holl staff i gadarnhau nad oes rhiant/gofalwr/gwarcheidwad wedi casglu'r plentyn.
- Edrych yn fanwl o amgylch y lleoliad, tu fewn a thu allan.
- Holi'r plant eraill mewn modd sensitif er mwyn darganfod a ydynt wedi gweld y plentyn dan sylw yn gadael yr adeilad.
- Sicrhau fod goruchwyliaeth effeithiol o weddill y plant sydd dal yn y cylch tra bod trefniadau chwilio ar waith.

Os na ddarganfyddir y plentyn yn sgil y camau uchod, dylid dilyn y camau isod ar frys:

- cysylltu â'r heddlu
- cysylltu â'r rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid
- cysylltu â'r AGGCC

Yn dilyn y digwyddiad dylai'r Arweinydd baratoi adroddiad ysgrifenedig am y digwyddiad ynghyd ag adolygu'r asesiad risg.



Camau i'w cymryd os darganfyddir fod plentyn ar goll tu allan i leoliad y Cylch

Dylid cyfeirio at y Polisi Cludo a Throsglwyddo Plant

Polisiâu Cysylltiedig

Polisi Cludo a Throsglwyddo Plant